**Rhif: 48242**

# Dogfen Ymgynghori

Llywodraeth Cymru

# Newidiadau i Reoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) 1979

Newidiadau i Reoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) 1979 oherwydd diwygiadau i Ddeddf Coedwigaeth 1967 a wnaed gan Fil Amaethyddiaeth (Cymru) 2023

Dyddiad cyhoeddi: 11 Awst 2023

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 08 Medi 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn y Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron 2023

## Trosolwg

Mae Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn diwygio Deddf Coedwigaeth 1967 i ganiatáu ychwanegu amodau amgylcheddol at drwyddedau cwympo, ac mae'n galluogi diwygio, atal neu ddirymu trwyddedau cwympo coed a roddwyd eisoes. Mae'r Bil wedi pasio drwy'r Senedd ac mae'n aros am Gydsyniad Brenhinol cyn dod yn ddeddf gwlad.

Mae materion gweithdrefnol newydd yn deillio o nifer o ddarpariaethau coedwigaeth yn y Bil, fel "cyfnod penodedig" a/neu "fodd penodedig".

Mae hyn yn golygu bod angen diwygio Rheoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) 1979 ("Rheoliadau 1979") sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer materion gweithdrefnol amrywiol o dan Ddeddf Coedwigaeth 1967. Mae'r diwygiadau hyn yn angenrheidiol er mwyn galluogi darpariaethau coedwigaeth y Bil i weithredu. Bydd y rheoliadau diwygio'n cael eu gwneud o dan bwerau cyfredol yn Neddf Coedwigaeth 1967, yn enwedig adran 32.

## Sut i ymateb

Dylech gyflwyno'ch sylwadau erbyn 8 Medi 2023, gan ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau canlynol:

Llenwi ein ffurflen ymateb ar-lein.

Neu lawrlwytho a llenwi ein ffurflen ymateb, ac e-bostio i
PolisiCoedwigaeth.ForestryPolicy@llyw.cymru

Neu gallwch lawrlwytho a llenwi ein ffurflen ymateb a'i phostio i'r cyfeiriad hwn
Polisi Adnoddau Coedwig
Llywodraeth Cymru,
Sarn Mynach,
Cyffordd Llandudno
Conwy.
LL31 9RZ

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac iaith amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

## Manylion cyswllt

Rhagor o wybodaeth:

Polisi Adnoddau Coedwig
Llywodraeth Cymru,
Sarn Mynach,
Cyffordd Llandudno
Conwy.
LL31 9RZ
E-bost: PolisiCoedwigaeth.ForestryPolicy@llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd: hyperddolen

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ac ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru (Erthygl 6(1)(e)).

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Yn achos ymgynghoriadau ar y cyd, mae'n bosibl y bydd hyn hefyd yn cynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o ymatebion i ymgynghoriadau, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gontract yr ymgymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio eich manylion cyn cyhoeddi eich ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a'i bod yn bosibl y bydd Llywodraeth Cymru o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r Cais am Dystiolaeth, yna caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch, a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan GDPR y DU, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost: swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113
Gwefan https://ico.org.uk/

## Cynnwys

Cynnwys .......... 4
Cefndir .......... 5
Cynigion polisi .......... 6
Ffurflen Ymateb i’r Ymgynghoriad .......... 9

## Cefndir

Mae'r Bil Amaethyddiaeth (Cymru) ("y Bil") yn gwneud nifer o newidiadau i Ddeddf Coedwigaeth 1967 ("Deddf 1967") i alluogi ychwanegu amodau amgylcheddol at drwyddedau cwympo, ac i ddiwygio, atal neu ddirymu trwyddedau cwympo coed a roddwyd eisoes. Mae hyn er mwyn atal cwympo coed a fyddai'n groes i ddeddfwriaeth amgylcheddol arall, ac yn darparu amddiffyniad pellach i fywyd gwyllt a'r amgylchedd yn ystod gwaith cwympo coed.

Bil Amaethyddiaeth Cymru fel y'i pasiwyd gan Senedd, yw hwn.

Mae Rheoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) 1979 (a elwir yn "Rheoliadau 1979") yn darparu ar gyfer materion gweithdrefnol amrywiol dan Ddeddf Coedwigaeth 1967. Fe'u diwygiwyd gan Reoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) (Diwygio) 1987.

Mae materion gweithdrefnol newydd yn deillio o'r diwygiadau i Ddeddf Coedwigaeth 1967. Gan fod Rheoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) 1979 yn cynnwys materion gweithdrefnol i gefnogi Deddf Coedwigaeth 1967, mae angen eu diwygio hefyd.

Nodwyd pedwar achos gweithdrefnol newydd yn narpariaethau coedwigaeth y Bil, y mae angen eu cynnwys yn Rheoliadau 1979. Y rhain yw:

- Gorchmynion Cadw Coed – Mae Adrannau 38 a 40 o'r Bil yn mewnosod adrannau 10A (3) a 24F(4) newydd yn Neddf Coedwigaeth 1967. Mae'r ddwy adran hon yn ymwneud â Gorchmynion Cadw Coed (Gorchmynion) a'r cyfnod penodedig y gall yr awdurdod lleol a wnaeth y Gorchymyn ("yr awdurdod Gorchymyn") wrthwynebu.

- Apeliadau – Mae adran 41 o'r Bil yn mewnosod adran 26C(1) newydd yn Neddf Coedwigaeth 1967 sy'n gwneud cyfnod penodedig ar gyfer apelio'n ofynnol a dull lle mae apêl i'w gwneud yn erbyn hysbysiad a gyflwynir o dan adrannau 24C(3), 24D(2) a 24E(3) newydd o'r Ddeddf Coedwigaeth.

- Iawndal – pan fo hawliad am iawndal i'w wneud yn ymwneud â hysbysiadau a gyflwynir o dan adrannau 24C(3), 24D(2) a 24E(3), mae adran 41 o'r Bil yn mewnosod adran 26G(2) newydd yn Neddf Coedwigaeth 1967 sy'n gwneud cyfnod penodedig a dull ar gyfer hawliadau iawndal yn ofynnol.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich sylwadau ar y cyfnodau penodedig a'r dull arfaethedig sy'n ymwneud â'r achosion gweithdrefnol hyn, i'w mewnosod yn Rheoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) 1979. Cynigir bod diwygiadau'n cael eu gwneud mewn rheoliadau diwygio newydd, dan deitl gweithio Rheoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) (Diwygio) (Cymru) 2023. Byddant ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

## Cynigion polisi

Mae adrannau 36 i 44 o'r Bil yn mewnosod nifer o adrannau newydd yn Neddf Coedwigaeth 1967, sy'n galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflwyno hysbysiadau er mwyn diogelu bywyd gwyllt a'r amgylchedd yn well yn ystod gwaith cwympo coed. At ddibenion yr ymgynghoriad hwn, crynhoir yr hysbysiadau hyn fel:

- Gellir cyflwyno hysbysiad dan adran newydd 24C(3) pan fo amodau trwydded cwympo coed wedi'u torri.
- Gellir cyflwyno hysbysiad dan adran newydd 24D(2) i berchennog newydd lle mae perchennog blaenorol wedi torri amodau trwydded cwympo coed ond nad yw wedi cymryd y camau gofynnol o ganlyniad i dorri'r amodau hynny, cyn gwerthu'r tir.
- Gellir cyflwyno hysbysiad o dan adran 24E(2) newydd lle nad oes unrhyw dorri amodau trwydded cwympo coed wedi digwydd ond bod risg o niwed sylweddol.

<u>Gorchmynion Cadw Coed</u>
Mae adrannau 38 a 40 y Bil yn mewnosod adrannau 10A (3) a 24F(4) newydd yn Neddf Coedwigaeth 1967 sy'n cyflwyno cyfnod penodedig lle mae'n rhaid i awdurdod lleol y Gorchymyn Diogelu Coed ymateb yn ysgrifenedig i hysbysiad Cyfoeth Naturiol Cymru os yw'r awdurdod Gorchymyn Diogelu Coed hwnnw'n dymuno gwrthwynebu

- cynnig i ddiwygio trwydded cwympo coed drwy gytundeb rhwng CNC a'r person sy'n gyfrifol (adran 10A(3) neu
- cyflwyno hysbysiad dan adrannau 24C(3) newydd neu a.24E(2) mewn perthynas ag unrhyw goed sy'n destun Gorchymyn Cadw Coed.

Y cyfnod penodedig arfaethedig yn y ddau achos yw **1 mis.** Mae hyn yn unol â'r cyfnod penodedig y cyfeirir ato yn adrannau 15(2) a 19(3) o Ddeddf Coedwigaeth 1967 ac fel y nodir yn Rheoliadau 7 a 9 o Reoliadau 1979.

Mae'r Bil yn darparu ar gyfer eithriadau i'r cyfnod penodedig yn adrannau 38 a 40 o'r Bil lle byddai "meini prawf brys" yn gymwys. Mae hyn yn galluogi gweithredu ar unwaith i atal rhagor o ddifrod amgylcheddol.

**Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno y dylai'r cyfnod penodedig fod yn 1 mis yn unol â'r gofynion presennol dan Ddeddf Coedwigaeth 1967?**

**Os na, pa gyfnod penodedig ydych chi'n teimlo sy'n addas a pham?**

<u>Apelau yn erbyn hysbysiadau a gyflwynir o dan adrannau 24C(3), 24D(2) a 24E(3)</u>
Mae adran 41 y Bil yn mewnosod adran 26C(1) newydd yn Neddf Coedwigaeth 1967 sy'n gwneud cyfnod rhagnodedig a dull rhagnodedig yn ofynnol ar gyfer gwneud

apeliadau yn erbyn hysbysiadau a gyflwynir o dan adrannau 24C(3), 24D(2) a 24E(3).

Y cyfnod penodedig a gynigir ar gyfer apeliadau o'r fath fydd **3 mis.** Y dull penodedig a gynigir yw defnyddio ffurflen wedi'i diwygio'n briodol sy'n debyg i Ffurflen 9 o Reoliadau 1979, i'w chyflwyno i Weinidogion Cymru.

Mae'r cynigion hyn yn unol â'r cyfnod penodedig a'r dull penodedig cyfredol ar gyfer apelau y cyfeirir atynt yn adran 25(1) o Ddeddf Coedwigaeth 1967, ac a gyflwynir yn Rheoliad 14 o Reoliadau 1979.

Yr eithriad i hyn yw ar gyfer apeliadau sy'n destun ataliad, fel y nodir yn adrannau newydd 26A(2)(e) ac adran 26B(2)(d) sydd i'w mewnosod yn Neddf Coedwigaeth 1967. Yn yr achosion hyn, byddai'r cyfnod penodedig ar gyfer apelau'n ymestyn i gyfnod yr ataliad, fel bod yr unigolyn y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef yn gallu apelio i gael codi'r ataliad yn unol â hysbysiad atal pellach o dan adrannau newydd 24C(7)(b) neu 24E(4)(b).

**Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno â'r dull penodedig ac y dylai'r cyfnod penodedig fod yn 3 mis gydag estyniad pan mae hysbysiad yn ymwneud ag ataliad?**

**Os na, pa ddull neu gyfnod penodedig ydych chi'n teimlo sy'n addas a pham?**

<u>Hawliadau iawndal</u>

Mae adran 41 y Bil yn mewnosod adrannau 26D, 26E a 26F newydd yn Neddf Coedwigaeth 1967 sy'n nodi amgylchiadau lle mae iawndal yn daladwy. Mae adran 26G newydd yn dweud bod rhaid i hawliadau iawndal gael eu gwneud yn y cyfnod a'r modd penodedig a bod modd pennu hyn mewn rheoliadau.

Mewn perthynas â hawliadau o dan adrannau 26D, 26E a 26F, y cyfnod penodedig arfaethedig ar gyfer hawliadau yw **3 mis** o ddyddiad anfon penderfyniad y Gweinidog at yr ymgeisydd yn cadarnhau apêl lwyddiannus. Gan nad yw Rheoliadau 1979 yn nodi unrhyw amserlen ar hyn o bryd ar gyfer gwneud hawliadau, ystyrir bod y cyfnod penodedig hwn yn rhesymol i gael prisiad mewn perthynas â dibrisiant yng ngwerth pren, a choladu costau sy'n ymwneud â'r hysbysiad a ganslwyd.

Y dull penodedig a gynigir ar gyfer gwneud hawliadau yw drwy gyflwyno ffurflen wedi'i diwygio'n briodol yn debyg i Ffurflen 1 o Reoliadau 1979, a gyflwynir i Cyfoeth Naturiol Cymru.

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru a Gweinidogion Cymru yn parhau i allu dweud bod datganiad statudol yn ofynnol ar unrhyw hawliadau a gyflwynir. Datganiad ysgrifenedig ffurfiol o ffaith a wnaed mewn modd penodedig yw hwn, sy'n cadarnhau bod rhywbeth yn wir hyd eithaf gwybodaeth y sawl sy'n gwneud y datganiad. Hefyd, rhaid iddo gael ei lofnodi ym mhresenoldeb person awdurdodedig, fel cyfreithiwr. Caniateir datganiadau statudol mewn perthynas â hawliadau o dan Reoliadau 1979 er mwyn sicrhau nad yw hawliadau'n cael eu gwneud ar sail dybiannol.

**Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno â'r dull penodedig ac y dylai'r cyfnod penodedig fod yn 3 mis?**

**Os na, pa ddull neu gyfnod penodedig ydych chi'n teimlo sy'n addas a pham?**

## Ffurflen Ymateb i’r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (os yn berthnasol):

Cyfeiriad e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad chi:

**Cwestiwn 1:** Ydych chi'n cytuno y dylai'r cyfnod penodedig fod yn 1 mis yn unol â'r gofynion presennol o dan Ddeddf Coedwigaeth 1967?

Os na, pa gyfnod penodedig ydych chi'n teimlo sy'n addas a pham?

**Cwestiwn 2:** Ydych chi'n cytuno â'r dull penodedig ac y dylai'r cyfnod penodedig fod yn 3 mis gydag estyniad pan mae hysbysiad yn ymwneud ag ataliad?

Os na, pa ddull neu gyfnod penodedig ydych chi'n teimlo sy'n addas a pham?

**Cwestiwn 3:** Ydych chi'n cytuno â'r dull penodedig ac y dylai'r cyfnod penodedig fod yn 3 mis?

Os na, pa ddull neu gyfnod penodedig ydych chi'n teimlo sy'n addas a pham?

**Cwestiwn 4:** Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y newidiadau ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Ydych chi’n meddwl fod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?

Ydych chi’n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 5:** Yn eich barn chi, a oes modd llunio'r gwelliannau neu eu newid:

- fel eu bod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â’i thrin yn llai ffafriol na Saesneg; neu

- er mwyn lleihau unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â’i thrin yn llai ffafriol na Saesneg?

**Cwestiwn 6:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i’r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma:

Nodwch yma:

Mae’n debygol y bydd ymatebion i ymgynghoriadau ar gael yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai’n well gennych aros yn ddienw, ticiwch yma.